

PDF Argraffu Cyfeirnod

JONES, EDWARD ('yr ail '; 1775 - 1838), gweinidog Wesleaid

Enw: Edward Jones
Dyddiad geni: 1775
Dyddiad marw: 1838
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog Wesleaid
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Griffith Thomas Roberts

Ganwyd yng Nghynwyd, 1775. Cyn ei dröedigaeth bu'n chwarae mewn anterliwtiau ac yn eu cyfansoddi. Ymunodd â'r Wesleaid yn gynnar, a gweinidogaethodd ar gylchdeithiau Biwmares (1804), Trallwng (1805), Merthyr (1806), Machynlleth (1807), Rhuthyn (1808), Dolgellau (1809), Aberystwyth (1811), ac Abertawy (1813). Oherwydd afiechyd gorfu iddo ymneilltuo yn 1815; bu farw 15 Ebrill 1838. Ceir rhestr o'i weithiau a gyhoeddwyd yn *Yr Eurgrawn Wesleyaidd* yn *H. Wesl. G.*, i, 276. Dywedir iddo ef a **John Bryan** gyhoeddi casgliad o emynau yn 1805, ond credai **T. Jones Humphreys** mai **Edward Jones**, Bathafarn oedd cydolygydd y gwaith hwnnw.

Awdur

Y Parchedig Griffith Thomas Roberts, (1887 - 1977)

Ffynonellau

Yr Eurgrawn Wesleyaidd, 1902, 342

J. Jones, *Y Bywgraffydd Wesleyaidd yn cynwys bras-hanes am un a thriugain o weinidogion Wesleyaidd Cymreig yn nghyda 35 o weinidogion a gwyr lleyg Saesonig* (Machynlleth 1866), 153-5

Hugh Jones, *Hanes Wesleyaeth Gymreig* (1911â€³), i, 273-6

W. Rowlands, *Cofiant bywyd a marwolaeth y diweddar Barch. John Davies, gweinidog Wesleyaidd*, 1847, 14-5

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732953

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Trannu

Arddull APA

x

Roberts, G. T., (1953). JONES, EDWARD ('yr ail '; 1775 - 1838), gweinidog Wesleaid. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JONE-EDW-1775>

Griffith

Preifatrwydd a Chwci
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government